# Datganiad preifatrwydd

Mae Gwybodfan Celf y DU yn brosiect sy'n cael ei gynnal gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru. Cynllun peilot yw Gwybodfan Celf y DU, ac mae iddo ddau brif nod, sef cyfeirio pobl a rhoi gwybodaeth ymarferol am symudedd artistiaid i'r DU ac allan o'r DU; a chyfrannu at gasglu data a gwneud gwaith ymchwil ym maes symudedd diwylliannol yn y DU. Partneriaeth yw Gwybodfan Celf y DU rhwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland, Arts Council England ac Arts Council Northern Ireland.

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data a Chymorth gyda Phreifatrwydd

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau am ein datganiad preifatrwydd neu am sut y byddwn yn prosesu eich data, neu os ydych chi'n gwneud cais i weld eich data personol, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Cyngor Celfyddydau Cymru drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Y Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio, drwy Governance@arts.wales, neu gallwch ysgrifennu atom yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL.

## Pa wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Pan fyddwch chi'n tanysgrifio i'n rhestr bostio ac/neu i un o ddigwyddiadau Gwybodfan Celf y DU, wrth ichi gofrestru, byddwn yn casglu eich enw, eich cyfeiriad e-bost, enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol), y ffurf/sector celfyddydol, a'r wlad lle'r ydych chi wedi'ch lleoli. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar-lein. Efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau ychwanegol drwy SurveyMonkey ar ôl digwyddiadau, os byddwch chi am roi adborth.

Bydd eich data personol yn cael eu cadw mewn system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (Mailchimp, Eventbrite, Survey Monkey), ynghyd ag ar system Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Sut fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Efallai y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio i anfon cylchlythyr dros e-bost atoch ac ynddo newyddion a gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau Gwybodfan Celf y DU ac â symudedd artistiaid yn ehangach. Bydd gwybodaeth a gaiff ei rhoi drwy SurveyMonkey a thrwy geisiadau eraill am adborth yn cael ei defnyddio i werthuso ac adrodd am weithgareddau Gwybodfan Celf y DU, ac i ganfod y problemau a'r heriau sy'n wynebu artistiaid wrth iddynt weithio yn rhyngwladol.

## Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Mae gwrthrych y data wedi cydsynio i brosesu'r data drwy gofrestru i fod ar un o restrau postio Gwybodfan Celf y DU (sy'n cael eu cynnal ar Mailchimp) a/neu drwy gofrestru i un o

ddigwyddiadau Gwybodfan Celf y DU (ar Eventbrite).  Mae deddfwriaeth yn rhoi hawl benodol i unigolion dynnu eu cydsyniad yn ôl, ac mae gennych chi hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy ddad-danysgrifio o'r rhestr bostio neu drwy gysylltu â ni ynghylch eich data.

## Pwy fydd yn cael eich gwybodaeth?

- Gwybodfan Celf y DU
- Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru https://arts.wales/cy/polisi-preifatrwydd
- Creative Scotland https://www.creativescotland.com/privacy-policy
- Arts Council England https://www.artscouncil.org.uk/freedom-information/data-protection
- Arts Council Northern Ireland http://artscouncil-ni.org/site/page/privacy

Bydd Gwybodfan Celf y DU yn rhannu eich data â phartneriaid at ddibenion gwerthuso prosiect Gwybodfan Celf y DU, ac mae dolenni i'w polisïau preifatrwydd unigol i'w gweld uchod. Bydd Polisi Preifatrwydd pob partner yn rhoi manylion trefniadau prosesu'r partner hwnnw, ynghyd â manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data os hoffech chi gysylltu â phartner penodol ynghylch sut mae'r partner hwnnw'n prosesu eich data personol. O dan y GDPR, mae angen inni roi gwybodaeth ichi am sut y byddwn ni'n defnyddio'r data personol y byddwch chi'n eu rhannu â ni, a diweddaru'r wybodaeth hon os bydd angen inni ei defnyddio at unrhyw ddibenion ychwanegol.